OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 165

# Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 10 Mawrth 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aelod o'r Cyngor" ("*member of the Council*") yw aelod o'r Cyngor a benodir yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf 2014;

ystyr "y ceisydd" ("*the applicant*") yw sefydliad sy'n cyflwyno cais i'r Cyngor achredu cwrs neu raglen hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol;

ystyr "cwrs neu raglen astudio achrededig" ("*accredited course or programme of study*") yw cwrs neu raglen hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol a achredir gan y Cyngor o dan erthygl 3(1)(a) o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) 2017;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor y Gweithlu Addysg y parheir â'i fodolaeth gan adran 2 o Ddeddf 2014;

ystyr "darparwr" ("*provider*") yw corff sy'n darparu cyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**);

ystyr "Deddf 2002" yw Deddf Addysg 2002 ("*the 2002 Act*")(**3**);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Addysg (Cymru) 2014;

ystyr "meini prawf achredu" ("*accreditation criteria*") yw'r meini prawf a bennir gan Weinidogion Cymru o dan reoliad 4;

ystyr "prif swyddog" ("*chief officer*") yw prif swyddog y Cyngor;

(**1**) 1996 p. 56.
(**2**) 1998 p. 30.
(**3**) 2002 p. 32.

ystyr "Pwyllgor" ("*Committee*") yw pwyllgor achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol a sefydlir o dan reoliad 5;

ystyr "Pwyllgor Apelau" ("*Appeals Committee*") yw pwyllgor apelau achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol a sefydlir o dan reoliad 7;

ystyr "Rheoliadau 2012" ("*the 2012 Regulations*") yw Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012(**4**);

ystyr "sefydliad achrededig" ("*accredited institution*") yw sefydliad a achredir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan reoliad 7 o Reoliadau 2012;

mae i "sefydliad addysg bellach" yr ystyr a roddir i "further education institution" yn adran 140 o Ddeddf 2002.

**Darpariaethau dirymu, arbed a throsiannol**

**3.**—(1) Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2012 wedi ei ddirymu yn ddarostyngedig i baragraff (2).

(2) Mae rheoliad 7 o Reoliadau 2012 i barhau i gael effaith hyd nes nad yw unrhyw sefydliad achrededig wedi ei achredu bellach yn y modd hwnnw.

(3) Mae unrhyw achrediad a roddir i sefydliad achrededig o dan reoliad 7 o Reoliadau 2012 ac sydd mewn grym yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i barhau i gael effaith hyd nes y cynharaf o'r canlynol—

(a) diwedd pob cwrs neu raglen hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol a ddarperir gan y sefydliad achrededig ac a ddechreuodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;

(b) nid oes unrhyw fyfyrwyr wedi ymrestru ar unrhyw gyrsiau neu raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol a ddarperir gan y sefydliad achrededig;

(c) mae'r sefydliad achrededig yn hysbysu'r Cyngor nad yw bellach yn dymuno bod yn sefydliad achrededig;

(d) y mae'r Cyngor yn tynnu achrediad sefydliad achrededig yn ôl am beidio â chydymffurfio â'r meini prawf achredu; neu

(e) 31 Awst 2023.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn mae unrhyw gyfeiriad ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rheoliad 7(3) o Reoliadau 2012 i gael effaith fel pe bai'n gyfeiriad at y Cyngor.

(**4**) O.S. 2012/724 (Cy. 96).